

Beibl i Blant yn cyflwyno

Gwyrthiau Iesu



Awdur: Edward Hughes
Lluniau gan: Byron Unger; Lazarus
addaswyd gan: E. Frischbutter; Sarah S.
Cyfieithydd: Catrin Roberts
Alastair Paterson
Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

BFC
PO Box 3
Winnipeg, MB R3C 2G1
Canada


©2020 Bible for Children, Inc.

Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon,
ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Fe wnaeth Iesu lawer o wyrthiau. Roedd y
gwyrthiau yn dangos fod Iesu'n fab Duw.
Digwyddodd y wyrth gyntaf mewn gwledd briodas.
Roedd yno brollem. Doedd dim digon o win ar
gyfer pawb.



Cafodd Iesu wybod am y broblem gan Mair, ei fam. Fe ddywedodd hi wrth y gweision am wneud beth bynnag fyddai Iesu'n dweud wrthyn nhw.



3

"Llanwch y potiau hyn gyda dŵr," dywedodd Iesu. Tybed wnaethon nhw holi "Dŵr?" Ie - roedd Iesu wedi gofyn am ddŵr.




4

Yna dywedodd Iesu wrth un o'r gweision am roi diod allan o un o'r potiau i'r dyn oedd yn trefnu'r wledd iddo gael ei flas. Roedd y dŵr wedi troi'n win! Gwin da! Y gwin gorau!




5

Roedd y gweision yn rhyfeddu. Roedd Iesu wedi troi dŵr yn win. Dim ond Duw oedd yn gallu gwneud gwyrrth fel yna.




6

Fe wnaeth Iesu wyrthiau eraill hefyd. Un noson, aeth gyda'i ddisgyblion i gartref Pedr. Roedd mam yng nghyfraith Pedr yn sâl iawn gyda gwres uchel.




7

Cyffyrddodd Iesu â llaw y wraig sâl. O fewn eiliadau roedd hi wedi gwella. Cododd o'i gwely a pharatoi pryd o fwyd i Iesu a'r disgyblion.



8

Roedd hi'n ymddangos fel
petai'r ddinas gyfan wedi
dod at y drws y noson
honno. Daeth pobl
sâl yno - pobl oedd yn
methu gweld, clywed,
siarad, cerdded.
Daeth hyd yn
oed pobl hefo
cythreuliaid y
tu mewn iddyn
nhw at Iesu.
Oedd e'n gallu
helpu yr holl
bobl yma?




9

Oedd! Roedd Iesu, mab Duw yn gallu helpu, a dyna
wnaeth e. Cafodd pawb eu gwella. Roedd pobl oedd
wedi gorfod symud ar faglau nawr yn gallu cerdded
a rhedeg a neidio.



10

Daeth pobl eraill
hefyd - rhai oedd
wedi dechrau
edrych yn hyll
oherwydd salwch
y gwahanglwyf.



11

Cawson nhw eu
gwella gan Iesu.




12

Dyma ddynion a merched oedd
yn cael eu poeni
gan gythreuliaid
yn dod at Iesu.
Gorchmynnodd
i'r cythreuliaid
adael llonnydd
iddyn nhw. Pan
ufuddhaodd y
cythreuliaid,
cafodd y bobl
drist hyn
dangnefedd
a llawenydd.



13

Ceisiodd pedwar dyn helpu eu ffrind i fynd at Iesu,
ond roedd yna ormod o dyrfa. Beth allen nhw ei
wneud?



14

Fe wnaethon nhw gario'r dyn sâl
i ben to'r tŷ a dechrau tynnu'r
to yn ddarnau a gollwng
y ffrind i lawr nes ei
fod wrth ymyl
Iesu.




15

Gwelodd Iesu fod
y pedwar ffrind
yn credu ynddo.
Dywedodd, "Mae
dy bechodau wedi
eu maddau. Cod
ar dy draed,
cymer dy fatras
a cherdda."
Safodd y dyn
ar ei draed, yn
iach a chryf.
Roedd Iesu
wedi ei wella.




16

Yn fuan wedyn, roedd Iesu
mewn cwch gyda'i ddisgyblion.
Cododd storm ofnadwy ar y
llyn. Roedd Iesu'n cysgu.
Cafodd ei ddeffro gan
ei ddisgyblion achos
bod ganddyn nhw ofn.
"Achub ni, Arglwydd,
dyn ni'n siwr o farw!"
gwaeddon
nhw.



17

"Distaw! Byddwch lonnydd," gorchymynnodd Iesu i'r
tonnau. Aeth y llyn yn dawel yn syth. "Pwy ydy
hwn?" sibrydodd ei ddisgyblion. "Mae hyn yn oed
y gwynt a'r tonnau yn ufuddhau iddo."
Roedden nhw'n credu bod Iesu
yn fab Duw achos bod ei
wyrthiau yn dangos
pa mor fawr oedd e.
Doedd y disgyblion



18

ddim yn gwybod hyn, ond
roedden nhw'n mynd i weld
Iesu'n gwneud gwyrthiau
mwy wrth wneud gwaith
Duw ar y ddaear.

Gwyrthiau Iesu

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Mathew 8-9, Marc 1-2, Marc 4, Luc 4,
Luc 8, Ioan 2

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

19

Y Diwedd

40



60

20

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol.
Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16